OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pont Menai, Ynys Môn a Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Mawr Dros Dro) 2022

*Gwnaed* *29 Mehefin 2022*

*Yn dod i rym* *3 Gorffennaf 2022*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd er mwyn i waith gael ei wneud ar y ffordd, neu gerllaw iddi, ac oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd neu o ddifrod difrifol i'r ffordd, nad yw i'w briodoli i waith o'r fath.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Pont Menai, Ynys Môn a Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Mawr Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Gorffennaf 2022.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 11 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2022 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A5 Trunk Road (Menai Suspension Bridge, Anglesey and Gwynedd) (Temporary Prohibition of Large Vehicles) Order 2022

*Made* *29 June 2022*

*Coming into force* *3 July 2022*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A5 London to Holyhead trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited for works to be undertaken on or near the road and because of the likelihood of danger to the public or of serious damage to the road, which is not attributable to such works.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

**Title and commencement**

**1.** The title of this Order is the A5 Trunk Road (Menai Suspension Bridge, Anglesey and Gwynedd) (Temporary Prohibition of Large Vehicles) Order 2022 and this Order comes into force on 3 July 2022.

**Interpretation**

**2.** In this Order—

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 3 Gorffennaf 2022 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi.

**Gwahardd**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy’n pwyso mwy na 7.5 tunnell ar y darn o’r gefnffordd o’r enw Pont Menai sy’n ymestyn o Ynys Môn i Wynedd.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Mehefin 2022

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” *(“y gefnffordd”)* means the A5 London to Holyhead trunk road;

“works period” *(“cyfnod y gwaith”)* means the period commencing at 00:01 hours on 3 July 2022 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle with a weight of or exceeding 7.5 tonnes on the length of the trunk road known as the Menai Suspension Bridge that extends from Anglesey to Gwynedd.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated 29 June 2022

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government